5ed o Fai 2009

Datganiad Gwyl Ifan 2009

"Over the Hill" yw'r dywediad Saesneg am gyrraedd 40 mlwydd oed, ond twmpath o fath arall fydd ar enau aelodau Cwmni Dawns Werin Caerdydd yn ystod Gŵyl Ifan eleni!

I ddathlu'r garreg filltir yma yn hanes cwmni dawns swyddogol Dinas Caerdydd, mae'r Cwmni yn galw ar gyn-aelodau, neu unrhywun sydd â chysylltiad â'r tîm, ac yn eu gwahodd yn gynnes iawn i fynychu Cinio Mawreddog yn Neuadd y Ddinas ar nos Sadwrn 20fed o Fehefin.

Ydych chi'n hoffi Hoffed? Yn canmol Ceiliog? Yn rhamantus dros Rali, neu'n ffansio Ffaniglen? Yna ry' ni eisie' clywed oddi wrthych chi!

Mae Cwmni Dawns Werin Caerdydd wedi bod yn arddangos a datblygu dawnsio gwerin yng Nghymru ers 1968. Dros y blynyddoedd, mae'r cwmni wedi teithio i'r UDA, Siapan, Rwsia, a'r mwyafrif o wledydd y DU! Maen nhw'n ymfalchio yn eu traddodiadau, gan arddangos amrywiaeth o arddulliau dawnsio gwahanol, yn ogystal â chyflwyno hen arferion megis y Fari Lwyd, Dramau 'Mummers', a Hela'r Dryw.

Gŵyl Ifan yw'r ŵyl ddawnsio gwerin fwyaf o'i math, sy'n denu cannoedd o ddawnswyr i Gaerdydd o bob cwr o Gymru a thu hwnt rhwng 19-21 Mehefin. Mae'r penwythnos yn dechrau ar y nos Wener gyda Thwmpath; yna ar fore Sadwrn bydd cannoedd o ddawnswyr a cherddorion yn gorymdeithio drwy strydoedd y Brifddinas mewn gwisgoedd lliwgar a thrawiadol. Drwy gydol y dydd bydd cyfle i'w gweld nhw'n perfformio'u dawnsfeydd mewn sawl man ar hyd a lled y ddinas a'r fro. Ar y nos Sadwrn, cynhelir y 'Taplas', sef cinio mawreddog i'r holl dimoedd dawnsio, ac ar fore Sul cynhelir gweithdai lle fydd cyfle i brofi arddulliau dawnsio o ardraws y byd.

Felly os oes gennych chi gysylltiad â'r Cwmni, ac os hoffech fod yn rhan o'r dathliad arbennig hon, cysylltwch â post@gwylifan.org.

Cyhoeddwyd gan
Cwmni Dawns Werin Caerdydd
Nia Potter
Ysgrifennydd
07887 541631

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

ENILLWYR
GWOBR EWROPA AM
GELFYDDYD WERIN